

Llyrwyddwch eich prosiect agor a digwyddiadau haf



Saltdean Lido. Credit: Xavier Buendia.

Cymerwch ran yn ein moment cyfryngau cymdeithasol nesaf drwy rannu postiad gyda'r hashnod #TreftadaethArAgor

Dathlwch eich prosiect treftadaeth a rhwch wybod i bobl am ddigwyddiadau sydd ar y gweill, y lleoedd y gallant ymweld ag ef, neu pan fydd eich prosiect yn agor.

Mae ein momentau cyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd miloedd o ddefnyddwyr ac yn trendio'n rheolaidd yn y pump uchaf felly mae cymryd rhan yn ffordd wych o gydnabod eich grant a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Sut i gymryd rhan

- Rhannwch bostiad cyfryngau cymdeithasol **9am 23 Mehefin 2025**.
- Dangoswch wybodaeth am eich prosiect treftadaeth, digwyddiadau'r haf ac agoriadau, a chofiwch gynnwys delwedd wych.
- Rhwch **#TreftadaethArAgor** a thagiwch **@HeritageFundCYM**.
- Defnyddiwch y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol rydych chi'n hoffi eu defnyddio orau.
- Daliwch ati i ddefnyddio'r hashnod drwy gydol yr haf i rannu uchafbwyntiau o'ch digwyddiadau a'ch prosiectau.

Rydym
Byddw
drwy'r



Gardd yr Amgueddfa Hanes Naturiol. © The Trustees of the Natural History Museum, London.

Chwilio am syniadau?

Dyma rai postiadau drafft i'ch rhoi ar ben ffordd:

- Rydyn ni'n ymuno â @HeritageFundCYM i ddathlu #TreftadaethArAgor! Yr #haf yma gallwch ymweld â (nodwch enw'r prosiect a gwybodaeth)
- Mae #TreftadaethArAgor ac rydym wrth ein boddau y gallwch ymweld â (nodwch y prosiect, lle neu ddigwyddiad treftadaeth) o (nodwch y dyddiad). Diolch i gefnogaeth gan y #LoteriGenedlaethol #CronfaTreftadaeth @HeritageFundCYM
- Diolch i gefnogaeth gan @HeritageFundCYM gallwch ymweld â (nodwch y prosiect, lle neu ddigwyddiad treftadaeth) i gael gwybod mwy am (nodwch wybodaeth) #TreftadaethArAgor

Mwy o ddyddiadau i'ch calendr cyfryngau cymdeithasol

Tachwedd 2025. Bob hydref rydyn ni'n dweud #DiolchiChi i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol gyda'r Diwrnod Hunlun Bysedd Croes. Rhannwch eich prosiect Cronfa Treftadaeth ynghyd â hunlun bysedd croes i ledaenu'r gair am yr achosion da anhygoel y mae'r Loteri Genedlaethol yn eu hariannu.

Ionawr 2026. Cadwch lygad allan am ein diwrnod #TrysorauTreftadaeth blynyddol ym mis Ionawr. Dyma foment i rannu eich storïau, gwrthrychau, lleoedd a phobl treftadaeth wych.



efyd mewn ...

[John Webb's windmill at Thaxted, Essex. Credit: Acabashi, Wikimedia Commons.](#)



nity

[The Connaught Hall with its intricate ceiling by William Burges. Credit: Maison Dieu.](#)



[Inside the new shipbuilding gallery which is showcasing the area's rich heritage. Credit: The Dock Museum.](#)

Sharing Barrow's past, present and future